# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Prif ddarpariaethau*

## 12 Gorchmynion a rheolau ynglŷn â chynnal etholiadau yn 2021

(1) Mae is-adran (3) yn gymwys i offeryn statudol sy’n cynnwys gorchymyn o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf 2006 (pŵer i wneud gorchymyn o ran cynnal etholiadau’r Senedd) sy’n cynnwys darpariaeth—

(a) nad yw ond yn gymwys i etholiad 2021, neu

(b) nad yw ond yn gymwys i etholiad o dan adran 10 o Ddeddf 2006 i lenwi sedd wag aelod etholaethol y mae’r pôl ar ei gyfer i’w gynnal cyn 6 Tachwedd 2021.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys i offeryn statudol sy’n cynnwys rheolau o dan adran 36A o Citation id="c00201" Class="UnitedKingdomPublicGeneralAct" Year="1983" Number="0002">Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) (pŵer i wneud rheolau mewn perthynas â chynnal etholiadau cynghorwyr ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru) nad ydynt ond yn gymwys i etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy’n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru y mae’r pôl ar ei gyfer i’w gynnal cyn 6 Tachwedd 2021.

(3) Rhaid i offeryn statudol y mae’r is-adran hon yn gymwys iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru ac mae’n peidio â chael effaith pan fo 28 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r diwrnod y’i gwneir yn dod i ben, oni bai bod Senedd Cymru yn ei gymeradwyo drwy benderfyniad cyn i’r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(4) Ond—

(a) os yw Senedd Cymru yn pleidleisio ar gynnig ar gyfer penderfyniad i gymeradwyo offeryn statudol a osodir o dan is-adran (3) cyn i’r cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-adran honno ddod i ben, a

(b) os na chaiff y cynnig ei basio,

mae’r offeryn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y diwrnod y mae’r bleidlais yn digwydd.

(5) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o 28 o ddiwrnodau at ddibenion is-adran (4), rhaid diystyru unrhyw gyfnod pan fo Senedd Cymru—

(a) wedi ei diddymu, neu

(b) ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

(6) Nid yw is-adrannau (3) a (4)—

(a) yn effeithio ar unrhyw beth a wneir drwy ddibynnu ar y rheolau neu'r gorchymyn cyn iddynt neu cyn iddo beidio â chael effaith, nac

(b) yn atal gwneud rheolau newydd neu orchymyn newydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 12.